



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

**Pencadlys yr Heddlu | Police Headquarters
Glan-y-Don, Colwyn Bay, LL29 8AQ**

11 Rhagfyr 2024

Annwyl Hannah,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr 2024 yn dilyn fy mhresenoldeb yn y pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Mae'r Heddlu'n cefnogi Swyddogion Canlyniadau a rheoli etholiadau yng Nghymru. Daw'r adnoddau fel arfer o Uned Troseddau Economaidd (ECU) pob heddlu gan fod ganddynt yr arbenigedd a'r wybodaeth angenrheidiol i ymdrin â digwyddiadau o'r fath.

Bydd pob heddlu yn darparu Ditectif Ringyll neu uwch i ymgymryd â rôl pwynt cyswllt sengl etholiad. Darperir hyfforddiant ar gyfer y rôl gan hyfforddiant troseddau etholiad Academi Troseddau Dinas Llundain.

Unwaith y byddant wedi'u hyfforddi'n briodol, mae'r Swyddogion perthnasol yn gyfrifol am y canlynol:

- Ymgysylltu â Chomisiwn Etholiadol Cymru a rheolwr y gwasanaeth etholiadol.
- Ymgysylltu â SPOC eraill yr Heddlu i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru.
- Ymgysylltu ag awdurdodau lleol i nodi unrhyw gymunedau neu leoliadau sy'n agored i gamymddwyn etholiadol.
- Gweithio gyda Tarian i ddarparu cyngor seiberddiogelwch i randdeiliaid perthnasol cyn unrhyw etholiad.
- Darparu sesiynau briffio i bob ymgeisydd, asiant a phersonél yr heddlu i amlinellu deddfwriaeth berthnasol yn ogystal â chyngor ar sut i reoli cyswllt priodol yn ystod cyfnod etholiad.
- Ymchwilio i bob trosedd a adroddir i'r heddlu ac unrhyw droseddau dilynol y gellir eu datgelu yn ystod yr adroddiad cychwynnol.

Mae pwynt cyswllt sengl yn mynychu nifer o gyfarfodydd yn ystod y misoedd sy'n arwain at unrhyw etholiad. Bydd y swyddogion hyn yn gweld cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith 2 fis cyn unrhyw etholiad. O fewn yr amser hwn, maent yn treulio o leiaf 4-5 awr y dydd yn ymroddedig i'r rôl hon yn ogystal â rheoli eu rôl arferol. Mae hyn yn ymwneud â pharatoi yn unig.

Bydd unrhyw ymchwiliadau ychwanegol sy'n codi megis cwynion neu apeliadau yn cael eu rheoli gan aelodau eraill o staff. Yn aml iawn oherwydd proffil cyhoeddus yr unigolion dan sylw, mae gofyniad i uwch swyddogion fod yn gyfrifol am yr achosion hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo mewn modd effeithiol ac amserol.

Pencadlys yr Heddlu,
Glan-y-Don, Bae Colwyn LL29 8AW
www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk

Police Headquarters,
Glan-y-Don, Colwyn Bay LL29 8AW
www.north-wales.police.uk

**Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK**

Isod ceir dadansoddiad o nifer y cwynion a wnaed i'r heddlu ledled Cymru a'r canlyniadau dilynol boed yn rhybudd neu erlyniad.

Dyddiad	Nifer cwynion	Rhybudd	Erlyniad
2008	5	1	0
2010	2	0	0
2011	2	0	0
2012	9	0	0
2014	2	0	0
2015	6	0	0
2016	4	0	0
2017	29	2	0
2018	4	0	0
2019	6	0	1
2020	8	0	0
2021	1	0	0
2022	6	0	0
2023	2	0	0
2024	25	1	0

Dylid tynnu sylw at y ffaith nad yw'r siart uchod yn cynnwys unrhyw ganlyniadau y mae geiriau o gyngor wedi'u rhoi. Yn ogystal, nid yw'r ffigurau'n adlewyrchu'n gywir y galw arall a fydd yn deillio o ymchwiliadau o'r fath. Bydd y rhain yn cynnwys cymorth gan dimau cyfathrebu'r heddlu ac unrhyw adegau yn adolygu heriau mewn perthynas â chanlyniadau.

Rwy'n gobeithio bod hwn yn darparu'r wybodaeth ychwanegol yr oeddech yn chwilio amdani.

Yr eiddoch yn gywir,



Amanda Blakeman KPM
Prif Gwnstabl
Heddlu Gogledd Cymru

Pencadlys yr Heddlu,
Glan-y-Don, Bae Colwyn LL29 8AW
www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk

Police Headquarters,
Glan-y-Don, Colwyn Bay LL29 8AW
www.north-wales.police.uk

Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK